CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **17/07/24**

Teitl: **Alldro'r Gyllideb Refeniw Reoladwy 23/24**

Pwrpas yr Adroddiad: **Adrodd ar sefyllfa derfynol Alldro Refeniw 23/24**

Er: **Gwybodaeth**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am berfformiad y Gyllideb Refeniw Reoladwy derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24. Bydd yr Aelodau'n cofio fod adroddiad monitro Chwarter 3 (ar gyfer y cyfnod hyd 31/12/23) wedi rhagweld gorwariant o £1.5m, sef gwelliant mawr o gymharu â Chwarter 2 (ar gyfer y cyfnod hyd 30/09/23) pan ragwelwyd gorwariant o £2.7m.

Y sefyllfa derfynol i'w hadrodd ynghylch alldro refeniw 23/24 yw gorwariant bychan o £10k ar sail Cyllideb o £180.1m ar gyfer 23/24. Mae'r sefyllfa hon ar ôl caniatáu ar gyfer trosglwyddo £250k i'r cronfeydd wrth gefn parthed Dyfarniad Tâl Ebrill 2024.

Y sefyllfa derfynol yw bod Balansau Cyffredinol y Cyngor yn parhau heb newid ar y cyfan, ar £6.7m, sy'n cyfateb i 3.5% o Gyllideb 24/25 (dal o fewn yr ystod targed o rhwng 3% a 5%).

Gellir crynhoi'r sefyllfa derfynol fel a ganlyn:

	23/24 Cyllideb ddiweddaraf £'000	**23/24 Union Wariant £'000**	**Tan/ (Gor) wariant £'000**
Cyllideb Reoladwy			
Cyllideb Reoladwy Graidd	**180,101**	179,906	*195*
Trosglwyddiad i'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Tâl Ebrill 2024	**-**	250	*(250)*
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	**(180,101)**	**(180,156)**	***(55)***
Cyllid			
Treth y Cyngor	**(50,908)**	(50,948)	*40*
Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) a'r Grant Cynnal Refeniw (RSG)	**(129,193)**	(129,198)	5
Cyfanswm Cyllid	**(180,101)**	**(180,146)**	***45***
Sefyllfa Alldro Gyffredinol	**-**	**10**	***(10)***

Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad 1. At ei gilydd, ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd (heb gynnwys y Balansau Cyffredinol) wedi lleihau o £48.8m i £44.0m (sef 23% o Gyllideb 24/25). Roedd wastad disgwyl y byddai'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn mynd i fod ar eu hanterth ar 31/03/22 (£53.9m) ac y byddent yn dechrau lleihau wedi hynny, ac y byddai hyn yn digwydd mewn ffordd ofalus ac o dan reolaeth. Ar hyn o bryd mae'r lleihad yn arafach nag a ddisgwyliwyd, yn rhannol o achos bod llai o arian cyfatebol yn cael ei ddefnyddio ar gynlluniau cyfalaf mawr, fel oedd y sefyllfa ar 31/03/24. Fodd bynnag, mater o amseru yn unig yw hyn.

Dyma faterion allweddol i'w nodi parthed y sefyllfa Alldro:

- Nid yw dyfarniad tâl y staff cyffredinol, ar gyfer Ebrill 24, wedi dod i fwcwl ar adeg ysgrifennu hwn. Mae'r cynnig tâl llawn a therfynol a wnaed gan y Cyflogwyr Cenedlaethol, sef cynnydd o £1,290 ar bob pwynt ar y golofn gyflog (hyd at, a chan gynnwys, SCP43) ac yna 2.5% ar gyfer pob gradd uwchben hyn, yn mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth a wnaed yng Nghyllideb 24/25 a hynny gan oddeutu £260k. Felly, i gydnabod y pwysau y mae'r Gwasanaethau i gyd (gan gynnwys Ysgolion) oddi tano, ac ymdrechion mawr pob Gwasanaeth i fantoli'r sefyllfa alldro ar gyfer 23/24, mae swm wrth gefn o £250k wedi'i neilltuo yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer Dyfarniad Tâl Ebrill 2024. Hebddo, byddai angen rhagor o arbedion yn y flwyddyn, ond mae'n golygu bod pwysau costau ychwanegol ar gyfer proses pennu Cyllideb 25/26. Nid yw'r swm hwn yn cwmpasu'r effaith ar swyddi a ariennir gan grantiau – bydd angen ysgwyddo hyn drwy'r arian grant a glustnodir.
- Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer cynllun rhannu ecwiti Tai Cymunedol Ceredigion, gan ddefnyddio'r arian a dderbynnir o bremiwm Treth y Cyngor, bellach yn £2.557m ar 31/03/24. O 01/04/24 ymlaen bydd cap ar unrhyw drosglwyddiadau i'r gronfa hon fel nad yw cyfanswm y cyllid sy'n cael ei ddal yn fwy na £2.0m.
- Mae swm o £500k wedi'i drosglwyddo o gronfa wrth gefn Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth i gronfa Cydraddoli Lleoliadau *(Placements Equalisation).* Mae hyn i gydnabod bod risg go fawr o hyd o ran costau uchel lleoliadau Gofal Cymdeithasol ac mae'r dull yma yn fodd o liniaru hynny'n rhannol.
- Mae costau Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor bellach oddeutu £750k y flwyddyn. Cyflawnwyd hyn yn bennaf yn sgil Gweithio Hybrid. Cyn y pandemig roedd y costau o gwmpas £1.25m. Ar ei anterth yn 2010/11 roedd costau Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor yn £2.5m sy'n golygu ein bod yn cyflawni arbedion o 70% yn y costau erbyn hyn.

2. Perfformiad y Gyllideb

Bu nifer fawr o bwysau cyllidebol i'r Gwasanaethau ymrafael â nhw yn ystod y flwyddyn gyda'r mwyafrif yn cael sylw helaeth yn y broses o osod Cyllideb 24/25.

Gan gydnabod y sefyllfa heriol yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Grŵp Arweiniol weithredu dull rhagweithiol iawn o reoli arian ym mis Awst 2023 yn dilyn sylw a

chyngor gan y swyddog Adran 151. Roedd hyn yn cynnwys mesurau oedd yn amrywio o ddefnyddio rhai cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, gofyn i wasanaethau amrywiol wneud arbedion yn ystod y flwyddyn, a rhoi rheolaethau ariannol ar waith ar wariant a recriwtio (gan gydnabod bod angen cyflawni'r rhwymedigaethau craidd presennol, statudol a chytundebol). Yn ystod Chwarter 3 gofynnwyd i bob Gwasanaeth barhau i gymryd camau, lle bo modd, i wella'r sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'n glod i'r holl Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, eu Rheolwyr Corfforaethol a'u staff fod y dull rhagweithiol yma (a'r rheolaethau a weithredwyd o ganlyniad) wedi llwyddo i ddileu'r gorwariant o £1.5m a ragwelwyd. Cydnabyddir er hynny mai camau un-tro, yn ystod y flwyddyn, oedd y rhan fwyaf o'r rhain ac felly ni fyddant yn creu arbedion parhaus yn y gyllideb sylfaenol. Serch hynny mae'n amlygu pa mor fedrus y mae angen i ddeiliaid cyllidebau fod mewn hinsawdd ariannol heriol. Bydd y flwyddyn ariannol 24/25 yn gofyn am ddull tebyg er mwyn gwneud cwtogiadau cyllidebol gwerth £5.8m.

Ymhlith y pwysau cyllidebol allweddol yn ystod blwyddyn 23/24 oedd:

- Dyfarniadau tâl uwch i'r staff yn sgil chwyddiant yn yr economi. Nid yw'r Cyngor ei hun yn pennu, yn penderfynu nac yn negodi dyfarniadau cyflog y staff – fe'i hysbysir o benderfyniadau a wneir gan gyrff eraill (Llywodraeth Cymru yn achos cyflogau Athrawon, a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor) ac yna mae ganddo ddyletswydd i'w gweithredu.
- Costau uchel a dendrwyd ar gyfer cludiant statudol o'r cartref i'r ysgol.
- O ran Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir i Blant (y mae cyfrif amdanynt o dan y Grŵp Arweiniol), gwariwyd cyfanswm o £7.1m ar sail Cyllideb o £4.9m yn 23/24. Mae hyn yn cynnwys symudiad yn y gyllideb o £600k o Porth Gofal i'r Grŵp Arweiniol i adlewyrchu'r ffaith fod y cyfleusterau a gynllunnir o fewn y sir (y pennwyd rhan o gyllideb 23/24 iddynt) yn mynd i fod ar waith yn ystod 24/25 yn hytrach na 23/24.
- Mae recriwtio wedi parhau i fod yn her i nifer o Wasanaethau sydd wedi golygu bod staff asiantaeth a threfniadau contractol eraill wedi'u defnyddio i lenwi swyddi gweithredol allweddol yn y gwasanaethau rheng flaen, os bernir fod hyn yn hanfodol i gynnal y gwasanaeth. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwariant a wnaed gan amrywiol Wasanaethau. Dylid nodi mai gros yw'r costau a bu arbedion yn sgil swyddi gwag a defnyddio cyllid grant, sydd wedi gwrthbwyso'r gwariant yn rhannol.

Gwasanaeth	Maes	Union Gost £'000
Porth Gofal	Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol	1,852
Porth Gofal	Galluogi / Gofal Cartref	358
Porth Gofal & Porth Cynnal	Gweithwyr Cymdeithasol Proffesiynol	2,996
Porth Cynnal	Contract y Tîm a Reolir	969
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Gweithwyr Casglu Gwastraff	194
Ysgolion	Athrawon Cyflenwi	2,234

- Nid oes arwydd fod y galwadau cynyddol ar Ofal Cymdeithasol yn mynd i leihau. Bu pwysau cost sylweddol mewn meysydd megis lleoliadau preswyl Pobl Hŷn, lleoliadau Plant ar eu Pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches, costau Asiantaethau Maethu Annibynnol, lleoliadau preswyl Iechyd Meddwl a chymorth lle bo'r angen o ran Anabledd Dysgu. Ar draws model Gydol Oes y Pyrth, y sefyllfa alldro derfynol oedd gorwariant o £1.9m.

Fodd bynnag bu sawl agwedd cadarnhaol yn ystod 23/24 sydd wedi gwrthbwyso'r pwyntiau uchod, megis:

- Wrth i gyfraddau llog gyrraedd 5.25% ym mis Awst 2023 a bod llwybr Banc Lloegr tuag at dorri cyfraddau llog heb ddechrau eto, roedd hyn wedi arwain at enillion uwch ar y balansau arian parod. Yn ogystal, ni fu'n rhaid benthyg arian allanol newydd yn ystod y flwyddyn. Felly cyflawnwyd cynnydd sylweddol o £2.0m ar draws y cyllidebau Rheoli Trysorlys o fewn y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael.
- Mae swyddogion mewn amryw o wasanaethau wedi gweithio'n galed i fanteisio i'r eithaf ar arian grant allanol. Er enghraifft, mae cyllid wedi'i dynnu i lawr a'i ddefnyddio'n llwyddiannus mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal nid–er-elw yng Ngofal Cymdeithasol Plant, grant Plant a Chymunedau, Grant Cymorth Tai a chefnogi Ffoaduriaid Wcráin.
- Mae enillion un-tro wedi eu cyflawni yn 23/24 mewn perthynas â chyllid ychwanegol wedi'i ôl-ddyddio ar gyfer Canolfan Bwyd Cymru yn Horeb (£763k) ac ad-daliad ardrethi Busnes wedi'i ôl-ddyddio ar gyfer Amgueddfa Ceredigion (£110k).
- Cafwyd gwarged bach o £40k ar y cyfan yn sgil casglu Treth y Cyngor.

Mae Balansau Ysgolion wedi lleihau o £5.1m i £3.8m sy'n golygu bod yr Ysgolion wedi defnyddio £1.3m y tu hwnt i ddyraniadau'r fformiwla cyllido. Ar eu hanterth yr oedd Balansau Ysgolion yn £8.3m ar 31/03/22. Ar 31/03/24 roedd diffyg yn y fantolen gan un o ysgolion Ceredigion, ac ysgol fach wledig yw honno. Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ati i gefnogi pob Ysgol ar ôl pennu Cyllideb 24/25.

Mae dadansoddiad pellach o Berfformiad y Gyllideb Reoladwy yn achos pob Gwasanaeth i'w weld ar y ddalen nesaf:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Gwasanaeth	23/24 Cyllideb ddiweddaraf £'000	23/24 Union Wariant £'000	Tan/ (Gor) wariant £'000	Sylw
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	**6,490**	6,186	*304*	Tanwariant yn y gwasanaeth TG craidd (£176k - yn sgil arbedion staffio) a Gwasanaethau Cwsmeriaid (£94k - yn sgil trosiant staff yn CLIC), ynghyd ag amrywiadau bach a chadarnhaol eraill yn y Cofrestryddion (£24k), Llyfrgelloedd (£11k) ac Archifau / Cofnodion Modern (£11k).
Gwasanaethau Democrataidd	**5,023**	4,698	*325*	Yn bennaf oherwydd tanwariant yn y Cymorth i Wasanaethau Corfforaethol (£166k) yn sgil oedi cyn penodi i swyddi gwag a chael cyllid grant, ynghyd ag arbedion staffio yn y tîm Cyfieithu (£85k). Hefyd, tanwariwyd ar Lwfansau Aelodau gan £34k yn rhannol yn sgil dau is-etholiad yn y flwyddyn.
Economi ac Adfywio	**3,966**	3,966	-	Mantolwyd y gyllideb, yn bennaf yn sgil cyllid ychwanegol ar gyfer Canolfan Bwyd Cymru, sydd wedi galluogi trosglwyddo £453k i Gronfa wrth gefn y Ganolfan i helpu'r datblygiadau arfaethedig yn Horeb, ynghyd ag unrhyw fylchau posib yn y ffrydiau ariannu yn y dyfodol. Mae hyn wedi gwrthbwyso gorwariant net o £180k yn y Gwasanaethau Eiddo (a oedd yn bennaf yn sgil cynnydd arafach na'r disgwyl wrth addasu adeiladau'r Cyngor at ddibenion gwahanol ac wrth sicrhau incwm rhent ychwanegol).
Cyllid a Chaffael	**18,982**	16,626	*2,356*	£2.0m o'r tanwariant yw arbedion rheoli'r Trysorlys / incwm ychwanegol, ynghyd â thanwariant yng ngwaith craidd y gwasanaeth (£299k) a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (£319k). Drwy hyn bu modd trosglwyddo £250k i'r cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo'r holl Wasanaethau gyda'r cynnig ar gyfer dyfarniad tâl Ebrill 24.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**19,414**	19,212	*202*	Mae sefyllfa gryfach o ran incwm Cyflogau Cyfalaf a Chau Ffyrdd (i fyny £348k), ynghyd â chostau is staff craidd (£212k) a thanwariant yr Uned Cludiant Teithwyr (£242k) o ran trafnidiaeth Gofal Cymdeithasol yn bennaf, wedi cyfrannu at sefyllfa o danwariant ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd gorwariant wrth Gasglu Gwastraff (£523k) a diffyg yn yr incwm Parcio Ceir (£221k).
Cyfreithiol a Llywodraethu	**1,659**	1,694	*(35)*	Mae costau cyfreithiol ym maes Gofal Cymdeithasol wedi bod £46k yn uwch nag a gyllidebwyd.
Pobl a Threfniadaeth	**2,341**	2,390	*(49)*	Y cynnydd yng nghostau etifeddol Pensiynau (£29k) sydd wedi achosi'r rhan fwyaf o'r gorwariant.
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	**2,495**	2,241	*254*	Mae'r tanwariant wedi codi o gyfuniad o arbedion gweithwyr a gwneud y mwyaf o gyllid allanol. Cyfrannodd y gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd at £192k o'r tanwariant. Mae achos adfer Tir Halogedig dal heb ddod i fwcwl.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Gwasanaeth	23/24 Cyllideb ddiweddaraf £'000	23/24 Union Wariant £'000	Tan/ (Gor) wariant £'000	Sylw
Model Gydol Oes y Pyrth				
Porth Cymorth Cynnar	**4,111**	3,751	*360*	Mae'r tanwariant wedi codi'n bennaf o'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (£220k) a'r Gwasanaeth Ieuenctid (£77k) gyda'r ddau wasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar gyllid allanol, a hefyd o'r Gwasanaeth Tai (£140k - yn rhannol yn sgil incwm ECO4 o £84k).
Porth Cynnal	**33,731**	36,000	*(2,269)*	Mae'r duedd a fu o ran galwadau a chymhlethdodau cynyddol wedi parhau yn 23/24. Mae hyn yn arbennig o ddwys yn y gwasanaeth Gofal wedi'i Gynllunio lle bu gorwariant o £2.3m. Mae'n cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal yn y sir (gorwariant o £501k sy'n cynnwys Asiantaethau Maethu Annibynnol a lleoliadau Plant ar eu Pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches) ynghyd â lleoliadau Pobl Hŷn (gorwariant o £1.430m). Mae taliadau atodol i Weithwyr Cymdeithasol (£163k) ar sail y farchnad, a chontract a gomisiynwyd parthed Gofal wedi'i Gynllunio (£1m) wedi cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn. Mae sawl tîm yn y gwasanaeth wedi gwario'n sylweddol ar staff asiantaeth. Mae'r gwasanaeth wedi manteisio i'r eithaf ar arian grant lle bynnag y bo modd ac mae hyn wedi helpu i wella'r sefyllfa oddi ar Chwarter 3.
Porth Gofal	**14,901**	14,923	*(22)*	Er y costau sylweddol ar staff asiantaeth, yn enwedig yng nghartrefi gofal yr Awdurdod Lleol a Brysbennu/*Triage* Porth Gofal, mae'r gwasanaeth bron wedi mantoli'r gyllideb. Mae hyn yn sgil gwrthbwyso sy'n dod o'r Gwasanaethau Dydd (£500k o danwariant) ynghyd ag arian o wahanol ffrydiau cyllido drwy grantiau. Fel y cynlluniwyd, mae £550k wedi cael ei ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â Chartref Gofal Hafan y Waun.
	52,743	54,674	*(1,931)*	Mae sefyllfa Llesiant Gydol Oes wedi gwella'n fawr ers rhagweld yn Chwarter 3 y byddai gorwariant o £3.1m.
Ysgolion a Diwylliant				
Ysgolion a Diwylliant (Awdurdod Addysg Lleol)	**9,252**	8,449	*803*	Y prif danwariant oedd yn ochr Dysgu Gydol Oes y gwasanaeth (£491k), yn bennaf oherwydd cyllid grant i HCT ynghyd ag elfen fach o swyddi gwag. Tanwariodd y gwasanaeth Arlwyo Corfforaethol gan £260k yn bennaf oherwydd yr effaith gadarnhaol o godi cyfradd uned Pryd Ysgol Am Ddim i £3.20 a thrwy hynny lleihau cymhorthdal y Cyngor.
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion	**47,536**	47,536	-	Bu gostyngiad o £1.3m ar y cyfan ym Malansau Ysgolion.
	56,788	55,985	*803*	
Grŵp Arweiniol	**5,252**	7,380	*(2,128)*	Mae costau Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn dal i fod yn faich sylweddol, gyda gwariant o £7.131m ar sail cyllideb o £4.85m, gan greu amrywiad negyddol o £2.281m.
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd wrth gefn	**4,948**	5,104	*(156)*	Mae £760k o arian premiwm Treth y Cyngor wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn y Cynllun Tai Cymunedol, sy'n sefyll ar £2.557m ar 31/03/24.
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	**180,101**	**180,156**	***(55)***	

3. Casgliad

Mae perfformiad y gyllideb ar gyfer 23/24 yn dangos o hyd fod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau'n gadarnhaol ac yn wydn ac yn cael ei reoli'n ofalus ac yn rhagweithiol drwy gyfnod ariannol hynod o anodd.

Mae gwasanaethau a'u deiliaid cyllideb wedi ymateb i'r her a roddwyd iddynt yn ystod y flwyddyn gan y swyddog Adran 151 a'r Grŵp Arweiniol ac mae'r gwelliant a fu ers Chwarter 3 wedi bod yn orchest fawr.

Fel y dangosodd y broses o osod cyllideb 24/25, mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol o ran gweithredu'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 24/25 a'r rhagolygon ariannol tymor canolig yn ehangach.

Bydd staff yn y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yn canolbwyntio yn awr ar lunio'r Datganiad ffurfiol o Gyfrifon gogyfer ag archwiliad allanol gan Archwilio Cymru maes o law.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.
Naddo – Mae'r adroddiad er gwybodaeth, nid penderfyniad.

Argymhelliad:
Nodi sefyllfa Alldro Refeniw 23/24.

Trosolwg a Chraffu:
Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Mae'r Gyllideb yn sail i'r holl Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Goblygiadau Cyfreithiol:
Rhan o rôl a chyfrifoldeb y swyddog Adran 151 i weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Goblygiadau Staffio:
Mae lefelau uchel parhaus y dyfarniadau tâl yn peri risg uwch o golli swyddi er mwyn cadw costau o fewn y Gyllideb sydd ar gael.

Goblygiadau eiddo / asedau:
Ddim yn berthnasol

Risg(iau):
Mae'r Risg Ariannol Tymor Canolig yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae sgôr y risg ariannol wedi'i chodi'n ffurfiol i'r sgôr uchaf bosib sef 25.

Papurau Cefndirol:
Cyllideb Refeniw 23/24

Atodiadau:
Atodiad 1: Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd:
Duncan Hall, Justin Davies a Kirsty Dawson

Dyddiad:
04/06/24

DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL

Enw'r Gronfa	Gwir Falansau ar 31/03/23 £'000	*Gwir Drosglwyddiadau (i)/wrth y Cronfeydd Wrth Gefn* £'000	*Trosglwyddiadau (i)/wrth y Balansau Cyffredinol* £'000	Gwir Falansau ar 31/03/24 £'000	Diben y gronfa
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Cynradd	(2,593)	748	-	**(1,845)**	Cronfeydd Dirprwyedig unigol yr Ysgolion (wedi'i glustnodi)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Uwchradd	(1,451)	475	-	**(976)**	Cronfeydd Dirprwyedig unigol yr Ysgolion (wedi'i glustnodi)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Gydol Oed	(1,083)	109	-	**(974)**	Cronfeydd Dirprwyedig unigol yr Ysgolion (wedi'i glustnodi)
Cyllideb Dirprwyedig Ysgolion - Is-gyfanswm Pob Ysgol	**(5,127)**	**1,332**	**-**	**(3,795)**	
Yswiriant - Cyflenwi	(85)	85		**-**	Cynllun yswiriant mewnol ar gyfer Ysgolion drwy CLG/SLA
Gwasanaeth Ysgolion, Diwylliant a Dysgu Gydol Oes	(770)	174		**(596)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Gwasanaeth Ysgolion, Diwylliant a Dysgu Gydol Oes	**(5,982)**	**1,591**	**-**	**(4,391)**	
Cyfalaf Gorfforaethol	(6,196)	540		**(5,656)**	Cefnogi ac ychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf
Addysg PFI Penweddig	(1,614)	301		**(1,313)**	Model gydol oes i ymdrin ag amrywiadau unedol, ac ati, ar gyfer contract PFI Penweddig sy'n rhedeg tan fis Rhagfyr 2030
Cyllid / cyfartalu CTRS	(700)	-		**(700)**	Cydraddoli cyfraddau llog ac esmwytho ar gyfer anwadalrwydd posib yng Nghynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor
Diswyddiadau Corfforaethol	(1,062)	-		**(1,062)**	Costau terfynu swyddi cyflogeion
Yswiriant	(1,206)	(140)	-	**(1,346)**	Ariannu materion yswiriant gan gynnwys taliadau dros ben /
Cyllid - Cyffredinol	(480)	(45)		**(525)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Cyllid a Chaffael	**(11,258)**	**656**	**-**	**(10,602)**	
Gwasanaethau Democrataidd	(112)	-		**(112)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Cronfa wrth gefn etholiadau'r Cyngor Sir	(35)	-		**(35)**	Etholiadau Lleol y Cyngor (gan gynnwys isetholiadau)
Gwasanaethau Democrataidd	**(147)**	**-**	**-**	**(147)**	
Pobl a Threfniadaeth	(17)	17		**-**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Pobl a Threfniadaeth	**(17)**	**17**	**-**	**-**	
Porth Cymorth Cynnar	(2)	-		**(2)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Buddsoddiad y Pyrth	(250)	-		**(250)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth gan gynnwys treialau/amrywiadau
Porth Gofal	(50)	(354)		**(404)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth (a rheoli Grantiau)
Model Gydol Oes y Pyrth	**(302)**	**(354)**	**-**	**(656)**	
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	(127)	-		**(127)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	**(127)**	**-**	**-**	**(127)**	

DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL

Enw'r Gronfa	Gwir Falansau ar 31/03/23 £'000	*Gwir Drosglwyd diadau (i)/wrth y Cronfeydd Wrth Gefn* £'000	*Trosglwyd diadau (i)/wrth y Balansau Cyffredinol* £'000	Gwir Falansau ar 31/03/24 £'000	Diben y gronfa
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	(1,086)	(18)		**(1,104)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth (a rheoli Grantiau)
Cynnal a Chadw dros y Gaeaf/ Atgyweirio ar ôl Stormydd	(155)	-		**(155)**	I'w defnyddio yn sgil tywydd garw difrifol a hirhoedlog dros y gaeaf
Amddiffyn Amgylcheddol a rhag Llifogydd	(177)	-		**(177)**	I gefnogi'r gwaith glanhau yn sgil tywydd garw difrifol unrhyw adeg
Gorfodi Sifil - Parcio	(102)	(80)		**(182)**	Wedi'i glustnodi - Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**(1,520)**	**(98)**	**-**	**(1,618)**	
Cynllun Datblygu Lleol	(233)	-		**(233)**	Polisi Cynllunio ar gyfer gwaith ar y CDLl / SDP
Economi ac Adfywio	(93)	-		**(93)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth
Canolfan Fwyd Cymru (Horeb)	(198)	(453)		**(651)**	I gefnogi Canolfan Fwyd Cymru (gan gynnwys bylchau posib rhwng
Y Fargen Dwf	(219)	100		**(119)**	Bargen Dwf Canolbarth Cymru - arian cyfatebol ac ati
Rhaglen Wella Gwaith Trin Carthffosiaeth	(452)	-		**(452)**	Rhaglen waith Gwella Cyfalaf / Mabwysiadu
Economi ac Adfywio	**(1,195)**	**(353)**	**-**	**(1,548)**	
Buddsoddiad TGCh a Digidol	(1,000)	-		**(1,000)**	I gefnogi'r Strategaeth Ddigidol newydd gan gynnwys TGCH /
Amnewid Seilwaith TGCh Ysgolion	-	(262)		**(262)**	I gefnogi'r gwaith o Amnewid Seilwaith TGCh Ysgolion
Cyswllt â Chwsmeriaid, TGCh a Digidol	(181)	(75)		**(256)**	Cronfa wrth gefn gyffredinol y Gwasanaeth (a rheoli Grantiau)
Cyswllt â Chwsmeriaid a TGCh a Digidol	**(1,181)**	**(337)**	**-**	**(1,518)**	
Wrth gefn/Contingency a Rheoli'r Gyllideb	(4,137)	1,380		**(2,757)**	Cronfa wrth gefn/Contingency a Rheoli'r Gyllideb yn gyffredinol
Pwysau Costau a Chwyddiant	(1,322)	534		**(788)**	I ariannu Pwysau Costau a Chwyddiant
Cydraddoli Lleoliadau/Placements	-	(500)		**(500)**	Esmwytho costau Lleoliadau Gofal Cymdeithasol pen ucha
Cynllun Tai Cymunedol (Premiwm Treth y Cyngor)	(1,797)	(760)		**(2,557)**	Cynllun Tai Cymunedol - cymeradwywyd gan y Cabinet 06/06/23
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu	(4,877)	1,507		**(3,370)**	Buddsoddi i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol benodol
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	(8,000)	500		**(7,500)**	Buddsoddi i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol benodol
Creu cymunedau gofalgar ac iach	(2,302)	290		**(2,012)**	Buddsoddi i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol benodol
Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	(4,640)	747		**(3,893)**	Buddsoddi i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol benodol
Grŵp Arweiniol	**(27,075)**	**3,698**	**-**	**(23,377)**	
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	**(48,804)**	**4,820**	**-**	**(43,984)**	
				-	
BALANSAU CYFFREDINOL					
Balansau Cyffredinol	(6,714)	-	10	**(6,704)**	Y polisi presennol yw ei gynnal ar ystod o rhwng 3% a 5% o'r gyllideb gyfan
Cyfanswm y Balansau Cyffredinol	**(6,714)**	**-**	**10**	**(6,704)**	
CYFANSWM TERFYNOL	**(55,518)**	**4,820**	**10**	**(50,688)**	